# Y Gwasanaeth Ymchwil

Gwasanaeth gwybodaeth, dadansoddi ac ymchwil arbenigol, diduedd a chyfrinachol.

## Gwasanaeth Ymholiadau

Gwybodaeth wedi'i theilwra wrth ateb cwestiynau cyfrinachol gan Aelodau'r Cynulliad am eu gwaith mewn pwyllgorau, gwaith y Cyfarfod Lawn, deddfwriaeth a gwaith etholaeth.

## Pecyn etholaeth

Ystod o adnoddau ar-lein, gan gynnwys canllawiau, taflenni ffeithiau i etholwyr a phroffiliau ystadegol o etholaethau.

## Gwasanaethau Rhagweithiol

Caiff papurau briffio a chyhoeddiadau sy'n berthnasol i fusnes y Cynulliad eu cyhoeddi ar ein blog, **Pigion**.

## Cymorth i'r pwyllgorau

Papurau briffio arbenigol i Bwyllgorau gan gynnwys papurau briffio unigol manwl ar gais.

## Yr Uned Craffu Ariannol

Cyngor am gyllid a chyllidebau'r Cynulliad, trethu a chael gafael ar ystadegau a'u dehongli.

## Cymorth cyfansoddiadol a deddfwriaethol

Cyngor am y broses ddeddfu yng Nghymru, y DU a thu hwnt. Gallwn helpu Aelodau i ddatblygu cynigion ar gyfer deddfwriaeth a'u cefnogi yn ystod pob cam o'r broses.

## Gwasanaethau mapio

Mapiau rhyngweithiol ar-lein sy'n eich galluogi i gymharu etholaethau a rhanbarthau'r Cynulliad. Mae mapiau statig mewn ystod o raddfeydd ar gael ar gais.

## LLyfrgell

Ystafell ddarllen gyfforddus lle gall Aelodau ddod o hyd i gyhoeddiadau, cylchgronau, papurau newydd ac adnoddau electronig.